

Rwy'n byw yng Ngogledd Cymru a symudais yma'n gyntaf yn 1985 pan oeddwn yn fy ardegau. Cwrddais â'm gwraig yn y Rhyl fwy nag 20 mlynedd yn ôl ac rydym wedi magu ein plant ym Mhrestatyn, lle'r ydym yn byw heddiw. Yn 2005 sefydlais fusnes yn y Rhyl, sy'n cyflogi 11 o bobl erbyn hyn.

Fel perchennog busnes a chyflogwr yng Ngogledd Cymru, mae craidd fy 'manifesto' yn canolbwyntio'n bendant iawn ar y manteision i'r rhanbarth cyfan, ac i gymunedau unigol, a ddaw law yn llaw yn aml iawn gydag economi bywiog a chryf. O safbwynt polisi, felly, rwy'n edrych ar y problemau niferus a wynebwn yn ein rhanbarth gyda phragmatiaeth busnes.

Rwyf wedi bod yn cyfrannu at asesiad estynedig o dirlun economaidd Gogledd Cymru drwy ystyried polisiâu, gan gynnwys sefyllfaoedd a allai godi o ganlyniad i Brexit, a sut y maent yn effeithio ar fusnesau. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i fusnesau micro a mentrau bach a chanolig. Rwy'n gwybod mor bwysig yw sicrhau bod polisi'n rhoi ystyriaeth iach i'r busnesau bach yn eich rhanbarth, ac, am y rheswm yma, mae hyn yn egwyddor allweddol o amcanion fy mywyd gwleidyddol.

Yn ôl Llywodraeth Cymru (Ystadegau i Gymru), roedd mentrau bach a chanolig (busnesau sy'n cyflogi llai na 250 o weithwyr) yn cyfrif am 99.4% o'r holl fusnesau yng Nghymru yn 2018, gyda'r Mentrau Micro' fel y cânt eu galw (sy'n cyflogi llai na 10 o weithwyr) yn cyfrif am 94.9% o'r cyfanswm. Roedd mentrau bach a chanolig hefyd yn cyfrif am 62% o'r cyfanswm cyflogaeth yn 2018.

Fel esiampl o'r ffordd yr wyf fi'n meddwl am bolisi, hoffwn weld diwygiad sylweddol yn y system bresennol o godi trethi ar fusnes. Mae'r drefn ar hyn o bryd yn troi pobl oddi wrth agor busnesau ac mae'n dreth sy'n mynd yn erbyn ei phwrpas ei hun. Yr hyn sydd ei angen yw ysgogi ac annog busnesau stryd fawr a phosibiliadau cyflogi. Hoffwn ddatblygu polisiâu gwell sy'n ymestyn y cynlluniau rhyddhad ardrethi i fusnesau bach ac esemptiad adeiladau sy'n cynnwys gosod mentrau newydd mewn siopau gwag. Hoffwn weld system ardrethi graddfa symudol fwy soffistigedig sy'n rhoi cyfle i fentrau newydd sefydlu ac ymgynefino cyn gorfod talu baich treth mor drwm.

Hoffwn weld y rheolau am esemptiad ardrethi busnes yn cael eu hymestyn er mwyn gadael i fentrau sydd wedi'u seilio yn y gymuned, megis CICs, ddefnyddio safleoedd siopau gwag am gostau llawer is gyda chyfleusterau a gwasanaethau newydd sydd wedi'u canolbwyntio yn y gymuned.

Rwy'n gredwr mawr mewn menter gymunedol a chwmnïau buddiannau cymunedol (CICs) ac rwyf wedi cynnig polisiâu yn y gorffennol i roi cyfleuster incwm sylfaenol o dair blynedd, wedi'i warantu, i gwmnïau buddiannau cymunedol (CICs) sy'n ateb y gofynion i gael eu categorio'n 'Fentrau sy'n Cyfranogi i'r Gymuned'. Mae'r budd enfawr y mae CICs yn ei roi i gymdeithas yn amlwg iawn, ynghyd â pha mor effeithiol ydynt fel cyfryngau i ddod â newid cymdeithasol ac i rymuso'r dinasyddion. Fy mholisi innau yw 'cymdeithasoli' i annog gwell agweddau tuag at wasanaethau lleol a rhanbarthol gyda chyfranogaeth llawer mwy uniongyrchol – ond gyda mwy o gymorth hefyd – gan y gymuned mewn gwella gwasanaethau.

I'r perwyl hwn, mae gan y 'gymuned' wleidyddol hefyd lawer mwy i'w gynnig drwy wneud mwy o gydweithredu ac mae hyn yn nod allweddol gen i bellach wrth ystyried polisi newydd. Credaf y dylid gwneud mwy i ymgorffori barn meddylwyr eraill ar draws y pleidiau wrth adolygu'r opsiynau ar gyfer newid. Byddwn yn cynnig 'grwpiau ffocws' mwy amrywiol i ymdrin â llawer o broblemau rhanbarthol, a bydd y rhain yn benodol yn cynnwys pobl o safbwyntiau gwleidyddol gwahanol os oes ganddynt yr arbenigedd perthnasol. Ni ddylem anwybyddu cyfraniad gan bobl o safbwyntiau eraill wrth asesu anghenion ein cymunedau.

Yn olaf, rwy'n teimlo fod busnes, economi a chymuned oll yn cydblethu a bod rhaid i ni ddatblygu gwell polisiâu i'r bobl sydd eisiau byw a gweithio yn ein cymuned ond sy'n cael trafferth fforddio costau tai a chostau sylfaenol i fyw yn ein rhanbarth. Hoffwn weld sefyllfa lle mae'n haws i bobl

fanteisio ar y cynllun cymorth i brynu tai gyda'r blaendal o 5% yn cael ei ostwng o bosib, a hynny i sero yn ddelfrydol, i bobl sydd wedi eu clymu gan broblemau rhent uchel ond sy'n gallu dangos y byddent yn gallu fforddio prynu gyda'r cymorth cywir.